

**Cyfarfod Cyngor Cymuned Brithdir, Llanfachreth a Rhydymain a gynhaliwyd yn
Neuadd Bentref Rhydymain
Nos Fawrth, Ionawr 17, 2017 am 7:00 o'r gloch.**

Preseanol Cyngorwyr: Rhun Prys Jones, Meurig Ashton, Mordaf Roberts, Peredur Jenkins, Gerallt Griffith, Emlyn Roberts, Geraint Evans a Huw A. Evans. Hefyd Henry M. Edwards.

1. Croeso'r Cadeirydd

Croesawyd pawb oedd yn bresennol. Yn absenoldeb Llion Rh. Williams (Cadeirydd), cadeirwyd y cyfarfod gan Rhun Prys Jones.

2. Ymddiheuriadau: Llion Rh. Williams.

3. Datgan diddordeb.

Nid oedd neb yn datgan diddordeb.

4. Cadarnhau cofnodion cyfarfod Tachwedd 15, 2016

Cynigwyd ac eiliwyd fod y cofnodion yn gywir.

5. Materion yn codi o'r cofnodion Tachwedd 15, 2016

Eitem 5. Eitem 6.d. Dyma'r Cynllun gweithredol i'r ciosg:

1. Ei gadw fel 'landmark' ar gyfer ceir a loriau sy'n mynd ar goll yn y topiau.
2. Fel llyfrgell fechan - nifer o lyfrau yno eisoes, a phobl (unrhyw un) yn mynd â chopi sy'n cymryd eu ffansi a rhoi llyfr yn ei le ryw ben.
3. Fel arddangosfa gelf - mae Richard Morgan am roi chydig o'i waith yno. Mae hefyd am baentio'r ciosg am fod y paent yn pilio'n arw. Mi wnaiff o (a falle Geraint 'Buck' Jones) osod silffoedd pan fydd BT wedi mynd a'r ffôn.
4. Mae Chris Oreira yn mynd i osod golau solar yno.

Mae hi'n croesawu unrhyw syniadau pellach gan y Cyngor.

Rhodddwyd gwybod iddi am fod y Cyngor fydd yn berchen ar y ciosg mi fydd rhaid i'r Cyngor ei yswirio.

Llythyr (16/11/2016) oddi wrth BT yn rhoi gwybod bod y ciosg ar eu rhestr i'w symud. Maent yn rhoi gwybod hefyd inni gysylltu gydag Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri i ddweud wrthynt am ein dymuniad i fabwysiadu'r ciosg. Mae hyn wedi cael ei wneud.

CYNGOR CYMUNED BRITHDIR, LLANFACHRETH A RHYDYMAIN
COFNODION IONAWR 17, 2017

Llythyr (21/11/2016) oddi wrth Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri yn rhoi gwybod mae ymgynghoriad BT wedi ei ohirio am nad oedd rhybuddion dwyieithog wedi ei gosod. Disgwylir bydd ymgynghoriad newydd yn cael ei gynnal flwyddyn nesaf gan Cyngor Gwynedd fel yr awdurdod lleol.

6. Gohebiaeth

a. Llythyr (15/11/2016) oddi wrth Cyfoeth Naturiol Cymru (trwy law Un Llais Cymru) yn rhoi gwybod beth maent yn eu gwneud a ddim yn ei wneud.

b. Llythyr (16/11/2016) oddi wrth Swyddog Cofrestru / Canlyniadau, Cyngor Gwynedd yn rhoi gwybod am gostau ynghlwm a'r etholiadau Cyngor Cymuned ym Mai 4, 2017 (yr un diwrnod ag etholiadau'r Cyngor Sir). Yr amcan gost i Ward Gymuned bydd £1,250 gyda hyd at 1,000 o etholwyr. Mae angen cymryd £1,250 i ystyried wrth baratoi praesept. Os fydd yr etholiad yn y Ward Gymuned yn ddi-wrthwynebiad fe godi'r tâl o £100 fesul ward etholiadol.

c. Llythyr (16/11/2016) oddi wrth y Groes Goch. Maent angen cymorth ariannol.

Penderfynwyd trafod y mater mis Chwefror 'Cais am Nawdd'.

ch. Llythyr (22/11/2016) oddi wrth Gwasanaeth Cyfreithiol, Cyngor Gwynedd yn rhoi gwybod bydd ffordd ger Nant Cnydiw ar gau o Tachwedd 23 am dri diwrnod i osod dwythell o dan y ffordd ac i adeiladu bocs uno.

d. Llythyr (28/11/2016) oddi wrth Cefnogaeth Gorfforaethol, Cyngor Gwynedd. Mae'r Cyngor yn annelu mwy o bobol i ystyried sefyll i fod yn gynghorwyr. Mae'r ymgyrch yn cynnwys dwy fideo sy'n rhoi gwybodaeth ac mae eu gweld ar wefan y Cyngor ar Bod yn Gyngorydd. Mae sesiynau sy'n codi ymwybyddiaeth, ac yr un lleol yw yn Swyddfa y Cyngor, Cae Penarlag, Dolgellau ar ddydd Mercher, 18 Ionawr 2017 am 6.00yh.

dd. Llythyr (7/12/2016) oddi wrth Un Llais Cymru. Maent yn rhoi gwybod bydd cwrs Sgiliau Cadeirio yn Canolfan Hen Blas, Stryd Fawr, Bala ar ddydd Mercher 18/1/2017 am 6.30yh.

e. Llythyr (9/12/2016) oddi wrth Un Llais Cymru. Cyfle i'r Cadeirydd a'i gwestai cael gwadd i arddwest Ei Mawrhydi ym Mhalas Buckingham ar 16 Mai, 23 Mai, 1 Mehefin 2017.

f. Llythyr (19/12/2016) oddi wrth Panel Annibynnol Cymru ar Gydabyddiaeth Ariannol yn rhoi gwadd i drafod ei fframwaith cydnabyddiaeth ariannol ar gyfer cynghorau cymuned a thref. Bydd digwyddiad yn Llandudno, Llanbedr Pont Steffan ac Y Fenni.

ff. Llythyr (21/12/2016) oddi wrth Llywodraeth Cymru gyda thaflen yn rhoi gwybodaeth am yr etholiad yn Mai 4, 2017.

CYNGOR CYMUNED BRITHDIR, LLANFACHRETH A RHYDYMAIN
COFNODION IONAWR 17, 2017

g. Llythyr (22/12/2016) oddi wrth Un Llais Cymru. Mae cwrs hyfforddiant Cyllid Llywodraeth Leol (Cymraeg) yn Neuadd Goffa, Penrhyndeudraeth ar ddydd Iau, Chwefror 2, 2017 am 6.30yw.

Llythyr (3/1/2017) oddi wrth Un Llais Cymru yn rhoi gwybod mae'r cwrs wedi ei gynllunio i helpu Clercod ac aelodau gyda'r broses archwiliad allanol.

h. Llythyr (6/1/2017) oddi wrth Un Llais Cymru. Mae cwrs hyfforddiant Cyfarfod y Cyngor yn Cyngor Tref Machynlleth, Y Plas, Heol Aberystwyth, Machynlleth ar ddydd Mawrth, Ionawr 17, 2017.

i. Llythyr (12/1/2017) oddi wrth Cefnogaeth Gorfforaethol, Cyngor Gwynedd yn gofyn am barn cynghorau cymuned ar y broses o ymchwiliad craffu trefniadau cynllunio Cyngor Gwynedd. Amgau mae 6 cwestiwn i ni eu hystyried.

7. Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri

a. Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990. Gorchymyn Cynllunio Gwlad Thref (Gweithdrefn Rheoli Datblygu) (Cymru) 2012.

i. Cais cynllunio NP5/54/295B. Mae'r Awdurdod yn caniatáu Tynnu'r mast telathrebu 14.5m presennol a gosod polyn 15m newydd yn ei le, amnewid 1 caban offer a gosod 1 caban offer newydd. Tir yn Gwanas Fawr, Dolgellau.

ii. Cais cynllunio NP5/54/316H. Mae'r Awdurdod yn caniatáu Trosi garej ac anecs yn uned gwyliau hunain cynhaliol. Bryn yr Aur, Bontnewydd.

ii. Cais cynllunio NP5/54/T258B. Mae'r Awdurdod yn caniatáu Diddymu Cytundeb Adran 106 dyddiedig 17/12/1999 mewn perthynas a chais cynllunio NP5/54/T258. Y Beudy, Dolgamedd Farm, Brithdir.

b. Deddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth), 1990. Rheoliadau Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth), 1990.

Cais NP5/54/LB203G. Mae'r Awdurdod yn caniatáu Caniatâd Adeilad Rhestredig i gadw gwaith sydd eisoes wedi ei wneud i adfer lleoliad gwreiddiol y drws blaen; cau agoriad drws modern gyda gwaith cerrig; amnewid gwaith bloc a ffenest casment i'r adeilad allanol gyda drws ffug o'r un edrychiad a'r gwreiddiol; amnewid ffenestr fodern yn yr ystafell wely gyda ffenestr o'r un manylion ac un gyffelyb yn rhif 1; tynnu gwaith bloc ar y drychiad gogleddol a gosod drws; amnewid pwyntiad sment a phwyntiad calch. 2 Brynteg, Bontnewydd, Llanfachreth.

CYNGOR CYMUNED BRITHDIR, LLANFACHRETH A RHYDYMAIN
COFNODION IONAWR 17, 2017

c. Ceisiadau Cynllunio.

i. NP5/54/437B. Cais ôl-weithredol i drosi ysgubor yn llety gwyliau ynghyd a gosod tanc septig. Coed Brithgwm, Brithdir.

Penderfynwyd cefnogi'r cais ond nid yn unfrydol (27/12/2016)

ii. NP5/54/15M. Defnydd o lety gwyliau fel llety anecs i'r prif dŷ. Ystwmgwadnaeth, Llanfachreth.

Penderfynwyd cefnogi'r cais

8. Materion Ariannol

a. Llythyr (18/11/2016) oddi wrth Gwasanaeth Rholi Gwastraff a Strydoedd, Cyngor Gwynedd. Mae'r llythyr ynglŷn â biniau halen. Maent yn rhoi gwybod bydd y gost i lenwi yn £40 (i gychwyn haf 2017); ail-lenwi bin ar gais y gymuned fydd £60 (1 Hydref – 30 Ebrill). I ail lenwi bin bydd rhaid i'r Clerc gwneud cais gyda'r Swyddog Cyswllt: Priffyrddmeirionnydd@gwynedd.llyw.cymru

Penderfynwyd rhoi gwybod iddynt mae angen halen i fin halen sydd wrth Tyddyn Du, Hermon. Hefyd, mae angen bin halen newydd wrth Drws y Nant oherwydd mai'r bin sydd yno wedi torri.

b. Balans yn Account Rhif 61402277 ar 29 Tachwedd, 2016: £1,136.15.

c. Balans yn y banc ar 29 Tachwedd, 2016: £7,198.10.

ch. Llythyr (14/12/2016) oddi Cyllid, Cyngor Gwynedd. Maent angen i ni ddarparu manylion praesept am 2017 / 2018. Maent angen y wybodaeth erbyn dydd Gwener 27, 2017.

Penderfynwyd ddim newid y prasept a'i adael ar £6,000.

d. Anfonwyd (16/12/2016) manylion cyfrifon i'r aelodau bydd o ddefnydd i benderfynu praesept 2017 / 2018 yn ein cyfarfod.

Penderfynwyd trafod y mater yn cyfarfod mis nesaf.

dd. Llythyr (16/12/2016) oddi wrth Llywodraeth Cymru. Swm priodol o dan Adran 137(4) (a) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972. 'Gwariant Adran 137': Y terfyn ar gyfer 2017-18. Maent yn rhoi gwybod gall Cynghorau Cymuned wario ar gyfer blwyddyn ariannol 2017-18 £7.57, am bob etholwr, i sefydliadau sydd angen arian.

Bydd yr uchafswm yn £7.57 x 601 = £4,549.57.

CYNGOR CYMUNED BRITHDIR, LLANFACHRETH A RHYDYMAIN
COFNODION IONAWR 17, 2017

e. Derbyniwyd (08-12-16) £735.45 oddi wrth Cyngor Gwynedd at ad-daliad am dorri llwybrau cyhoeddus y Gymuned.

f. Balans yn Account Rhif 61402277 ar 29 Rhagfyr, 2016: £1,136.19.

ff. Balans yn y banc ar 29 Rhagfyr, 2016: £7,933.55.

9. Adroddiad Cynghorydd Peredur Jenkins

Mae disgwyl bydd gwaith ar Ffordd Lefel, Llanfachreth yn cael ei gwblhau cyn y gwanwyn.

10. Unrhyw fater arall

a. Mae'r Clerc yn dymuno ymddiswyddo o'i swydd.

Cytunodd yr aelodau gwneud ymoliadau am Glerc newydd.

a. Penderfynwyd rhoi gwybod i Priffyrdd a Bwrdeistrefol, Cyngor Gwynedd mae angen rhwystro dŵr rhag llifo i'r ffordd wrth Llety Hwsmon, Llanfachreth.

c. Bydd angen archwilio'r biniau halen yn yr haf i weld pa finiau sy'n cael eu defnyddion ac os maent yn llefydd delfrydol.

Llofnod:

Dyddiad: